




Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhestr wirio cyn cyhoeddi stori sy'n trafod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.



Pam y mae hyn yn bwysig?

Gall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fod yn bwnc emosiynol a heriol i adrodd arno a darllen amdano. Mae gan newyddiadurwyr gyfle unigryw a phwerus i godi ymwybyddiaeth, i ysbrydoli pobl i fynegi barn a gweithredu mewn cymdeithas, ac i helpu'r rheini a effeithiwyd gan y cynnwys i geisio cymorth. O'i wneud yn iawn, gallech wella ac achub bywydau.

Isod ceir rhestr wirio 10-pwynt sydyn at ddefnydd newyddiadurwyr cyn iddynt gyhoeddi unrhyw gynnwys sy'n trafod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol.



A ddefnyddir unrhyw stereoteipiau niweidiol?

Mae llawer o ragdybiaethau a chamdybiaethau ar draws cymdeithas ynghylch pwy yw dioddefwyr/goroeswyr. Mae defnyddio stereoteipiau o ran rhywedd, hil, rhywioldeb, oed, anabled a nodweddion eraill yn niwedidol ac mae'n cyfrannu at naratif diwerth sy'n dieithrio, yn ymleiddio ac yn rhoi bai ar ddiodeswyr. Mae pawb sy'n dioddef camdriniaeth neu drais yn unigolyn ac nid yn ystadegyn neu'n rhan o batrwm yn unig - ceisiwch sicrhau bod eich adroddiad yn adlewyrchu hynny.



A oes unrhyw iaith sy'n rhoi'r bai ar ddiodeswyr?

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn digwydd oherwydd bod cyflawnwr yn dewis eu cyflawni – nid bai'r diodeswyr/goroeswr ydyw ac nid yw ychwaith yn ganlyniad i'w hamgylchiadau neu'u gweithredoedd. Osgowch ddefnyddio iaith benodol ynghylch trais a chamdriniaeth sy'n cyfrannu at ddiwylliant o roi'r bai ar ddiodeswyr. Er enghraifft, os byddwch yn gwneud adroddiad am drais rhywiol, peidiwch â chanolbwyntio ar yr hyn yr oedd diodeswyr/goroeswr yn ei wisgo neu a oedd wedi bod yn yfed ai peidio. Wrth wneud adroddiad am gam-drin domestig, peidiwch â chanolbwyntio ar anawsterau ariannol na bywyd gwaith y cyflawnwr sy'n peri straen iddo fel cyfiawnhad dros yr ymddygiad camdriniol.



A yw'r stori'n defnyddio terminoleg gywir am y dioddefwr/ goroeswr?

O fewn y cyfreithlondeb sy'n amgylchynu iaith, gall hyn gynnwys dewisiadau ynghylch oed dioddefwr/goroeswr (a yw'n 'blentyn' neu'n 'fenyw ifanc'), ynghylch cydsyniad, ac ynghylch enwi'r trais neu'r gamdriniaeth a ddigwyddodd gan ddefnyddio'r derminoleg gywir.



Os byddwch yn cynnal cyfweiliad â goroeswr, a fyddwch yn diogelu anhysbysrwydd y goroeswr hwnnw hyd eithaf eich gallu?

Mae ymgynghori gyda goroeswyr wedi dangos mai un o'u pryderon mwyaf wrth gael eu cyfweld yw cael eu hadnabod gan y sawl sydd wedi'u cam-drin. Mae'n bwysig eich bod yn glir ynghylch a allwch gynnig anhysbysrwydd i oroeswr ai peidio, a pha gamau y byddwch yn eu cymryd i weithredu hyn – er enghraifft, a fedrwch chi bylu wyneb, darparu gwasanaeth trosleisio neu newid enw? Bydd yn werth gwirio ymlaen llaw gyda'ch tîm cynhyrchu ynghylch y broses hon a'r gwahanol lefelau o anhysbysrwydd y gellir gweithio â nhw.

Os na ellir gwarantu anhysbysrwydd, byddwch yn onest am hyn. Os caiff goroeswr ei adnabod, gall greu sefyllfa beryglus iawn, gall fod yn hynod drawmatig i'r goroeswr hwnnw a hyd yn oed arwain at barhau'r gamdriniaeth, felly mae angen tryloywder.



Os nad yw'r goroeswr yn anhysbys, a ydych wedi ystyried yr effeithiau posibl?

A wnaethpwyd asesiad risg digonol ynghylch y penderfyniad hwn? A ydych yn ymwybodol o amgylchiadau'r goroeswr a'r rhwydwaith cymorth sydd gan yr unigolyn hwnnw? Gall effaith goroeswr sy'n rhoi adroddiad nad yw'n anhysbys fod yn beryglus a gall bara'n hir ar ôl i'ch stori gael ei chyhoeddi ac wedi i'ch cysylltiad â'r unigolyn hwnnw ddod i ben. Felly mae'n hanfodol ar gyfer diogelwch a hunanofal goroeswyr fod hwn yn benderfyniad gwybodus.



A ydych wedi gwirio unrhyw farn a fynegir yn eich adroddiad gyda sefydliadau arbenigol?

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn bynciau sydd â llawer o ragdybiaethau a chamdybiaethau ynghlwm wrthynt. Os nad ydych yn siŵr ynghylch pa iaith i'w defnyddio i drafod pwnc penodol, cysylltwch â sefydliad arbenigol am eu cymorth. Efallai y byddant yn medru darparu cyd-destun,

ystadegau ac ymchwil berthnasol, neu siarad â chi am sensitifrwydd materion penodol a'ch cynghori ynghylch y ffordd orau o'u trafod.



A yw pennawd eich stori yn defnyddio iaith sy'n syfrdanu?

Er bod cyfrif geiriau a'r angen i ymgysylltu yn pwysu arnoch yn gyson, osgowch ddefnyddio iaith neu fanylion graffig o fewn penawdau. Trawma yw hwn ac nid anlladrwydd. Os caiff eich erthygl ei rhannu ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, byddwch yn ymwybodol o sut y gallai cynulleidfaoedd ymateb i'r pennawd a'r effaith y gallai hyn ei chael ar y dioddefwr/groeswr neu ar y rheini sy'n adnabod yr unigolyn hwnnw.



A oes rhybudd ynghylch manylion graffig neu rai a all beri gofid?

Gall darllen manylion am drais rhywiol fod yn arbennig o drawmatig a gall sbarduno emosiynau. Os nad yw'n bosibl gosod rhybudd penodol cyn eich erthygl, sicrhewch eich bod yn cynnwys brawddeg sy'n hysbysu darllenwyr am y ffaith bod yr erthygl yn cynnwys manylion graffig neu rai a all beri gofid, er mwyn iddynt allu paratoi a gwneud penderfyniad ynglŷn â darllen ymhellach.



A yw'r stori'n cyfeirio at gymorth sydd ar gael?

Wrth wneud adroddiad am gall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig drais rhywiol mae'n hanfodol cyfeirio at gymorth. Mae cymorth ar gael i oroeswyr, waeth pa mor bell yn ôl y digwyddodd y trais. Gall darllen cynnwys ar y pwnc hwn sbarduno emosiynau annisgwyl a chryf ac mae'n gyfrifoldeb arnoch i gyfeirio at rywle y gall eich cynulleidfa droi ato.

Mae llinell gymorth Byw Heb Ofn yn llinell gymorth 24/7 a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnig cymorth a chyngor tosturiol i oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ogystal â phobl eraill sy'n pryderu, megis anwyliaid, cymdogion, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol.



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Ffôn: 0808 80 10 800



Tecst: 07860 077333




Gwe-sgwrs: [llyw.cymru/byw-heb-ofn](https://www.welshwomensaid.org.uk/byw-heb-ofn)



A gawsoch chi'ch effeithio'n bersonol wrth ysgrifennu'r stori?

Mae gan bob newyddiadurwr ei brofiadau bywyd personol ei hun, a gallai gwneud adroddiad am yr achosion hyn o gamdriniaeth neu drais godi teimladau neu atgofion anodd. Os byddwch chi yn y sefyllfa hon, mae'n bwysig iawn cofio bod llinell gymorth Byw Heb Ofn yma 24/7 i chithau hefyd.



Dilynwch ni:

@welshwomensaid



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Cymorth i Ferched Cymru
Tŷ Pendragon, Caxton Place, Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

www.welshwomensaid.org.uk

Rhif elusen cyfrestredig: 1140962